Cwestiynau Cais am Wybodaeth Tracio'r Ddeddf 23/24

Adran 1: Allwch chi ddweud wrth Gofalwyr Cymru:

a) Disgrifiwch daith safonol gofalwr di-dâl yn ardal eich awdurdod lleol, o gael ei adnabod hyd at Asesiad o Anghenion Gofalwyr. Os yw hyn yn cael ei fodelu yn eich awdurdod lleol, mae croeso i chi rannu hyn â ni.

*Mae taith pob gofalydd ychydig yn wahanol ym mhob gwasanaeth – gofalwyr ifanc, rhieni/ofalwyr, gofalwyr oedolion sydd â salwch meddwl, gofalwyr oedolion sydd ag anabledd dysgu, oedolion sy'n gofalu am henoed.*

*Mae'r wybodaeth ganlynol yn sôn am daith oedolion sy'n gofalu am oedolion eraill, (gan eithrio oedolion sy'n gofalu am oedolion â salwch meddwl sy'n amrywio oherwydd natur y gofalu)*

*<u>Mae gofalwyr di-dâl yn cyrraedd at wasanaeth drwy amrywiol ffyrdd gan gynnwys :</u>*

- *Hunan gyfeiriad*
- *Timau Adnoddau Cymunedol (TAC) Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol yn cael cais i drefnu gwasanaeth i unigolion ac yn adnabod rôl gofalydd*
- *Cyfeiriad i TAC drwy'r gwasanaeth iechyd, y trydydd sector, neu weithwyr proffesiynol eraill*

*<u>Asesiad cychwynnol</u>*

- *Fel arfer ar y ffôn bydd y sgwrs gyntaf yn cymryd lle – ac mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn ystod yr alwad gyntaf.*
- *Os yw gofalydd yn cael ei adnabod ac yn gofyn am gymorth pellach ond heb fod angen gwasanaeth ar y person sy'n derbyn gofal, efallai bydd cyfeiriad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r 3ydd sector i roi cefnogaeth benodol yn unol â'r hyn mae'r gofalydd wedi gofyn amdano (e.e. Cynnal Gofalwyr i drefnu cyfnod ysbaid, cefnogaeth emosiynol ayyb)*
- *Os oes cais am wasanaeth pellach, neu fod gweithiwr yn adnabod bod angen gwasanaeth pellach, bydd ymweliad cartref yn cael ei drefnu, a bydd asesiad ar y cyd yn cael ei gynnal o'r sefyllfa, gan gynnwys rôl y gofalydd a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Defnyddir ffurflen 'Be sy'n bwysig i mi'*
- *Bydd y gofalydd yn cael cynnig asesiad ar wahân os mai dyma eu dymuniad.*

- *Bydd cynllun gofal yn cael ei lunio un ai ar y cyd gyda'r person sy'n derbyn y gofal, neu un ar wahân i'r person sy'n derbyn y gofal a'r gofalydd a dyma wedyn fydd sail gwasanaethau fydd yn cael eu cynnig iddynt o hynny ymlaen. Bydd y cynlluniau yma yn cael eu hadolygu fel bo'r angen.*

b) Ym mha ffyrdd y gall gofalwyr di-dâl gael gwybodaeth a chyngor gan eich awdurdod lleol, a faint o ofalwyr di-dâl a gafodd wybodaeth a chyngor drwy'r ffynonellau hyn?

- *Ffonio Galw Gwynedd a chael eu trosglwyddo i'r tîm perthnasol*
- *Gan weithwyr cymdeithasol*
- *Gan Tîm Gofalwyr*
- *Gan fynd i dudalennau ar gyfer gofalwyr di-dâl ar wefan Cyngor Gwynedd*
- *Trwy ffeiliau taflenni gwybodaeth sydd ar gael ym mhob llyfrgell y Cyngor*
- *Wrth ddarllen y llyfryn Edrych ar ôl rhywun?*
- *Gan fudiadau 3ydd sector, e.e. Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr*

*Nid ydym yn cadw cofnod o'n darpariaeth gwybodaeth a chyngor.*

*Mae gennym dudalennau gwefan ar gyfer gofalwyr di-dâl; dyma ystadegau ar nifer o ymweliadau yno 2023-2024:*

| | |
|---|---|
| *Gofalwyr di-dâl – 200* | *Unpaid carers – 585* |
| *Cymorth i ofalwyr di-dâl – 111* | *Support for unpaid carers – 430* |
| *Cefnogaeth ariannol – 67* | *Financial support – 497* |
| *Gofalu a gwaith/hyfforddiant – 38* | *Carers and employment/training – 92* |
| *Rhywun i siarad ar fy rhan – 27* | *Someone to speak on my behalf – 72* |
| *Taflenni gwybodaeth – 50* | *Information leaflets – 70* |

*Mae Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr wedi rhannu'r wybodaeth ganlynol:*
*2806 o ofalwyr wedi cofrestru efo nhw yng Ngwynedd, a phob un wedi derbyn 3 cylchlythyr yn ystod y flwyddyn, ond o leiaf 120 o ofalwyr bellach wedi gadael y system, felly maent yn meddwl bod cyfanswm o 2926 wedi derbyn gwybodaeth a chyngor yn ystod y flwyddyn.*

c) Pa hyfforddiant a datblygiad sy'n gysylltiedig â gofalwyr y mae staff sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl yn eu derbyn, a faint o staff sydd wedi cael hyfforddiant a datblygiad sy'n gysylltiedig â gofalwyr? Gallai hyn gynnwys gwasanaeth i gwsmeriaid, gweithwyr cymdeithasol/therapyddion galwedigaethol, timau gofalwyr, timau tai ac ati.

*Mae'r Uned Hyfforddiant*

- *yn gyrru dyddiadau hyfforddiant ar-lein Carers Wales i'r timau, ac mae hyn yn gynnwys yr hyfforddiant y maent yn eu darparu ar-lein i ofalwyr. Fel arfer*

*maent yn gyrru ystadegau i ni ar faint sydd wedi mynychu'n sirol, ond heb dderbyn dim byd eleni.*

- *wedi gofyn i Carers Wales ddod i wneud hyfforddiant wyneb yn wyneb ond roeddent yn methu gwneud hyn ac yn annog i ni gyfeirio pobl at eu hyfforddiant ar-lein.*
- *yn rhannu gwybodaeth gan fudiadau fel y ganolfan ymchwil heneiddio a dementia, ac ymchwil iechyd a gofal Cymru, sydd yn trefnu digwyddiadau sydd efallai ddim yn uniongyrchol am ofalwyr ond sydd yn berthnasol; mae ganddynt hefyd weithiau ddigwyddiadau penodol. Nid oes modd i'r Uned Hyfforddiant gadw data am bwy sydd yn mynychu'r digwyddiadau hyn.*
- *yn trefnu gweithdai gofalwyr ifanc gyda Gweithredu dros Blant*
- *yn hapus i drefnu hyfforddiant os oes yna faterion penodol angen eu trafod*

*O'r trafodaethau gydag ein timau am anghenion hyfforddiant, materion gweithredol gwasanaethu oedd y pethau oedd wedi codi.*
*Mae yna ddiffyg hyfforddwyr yn darparu ar faterion gofalwyr yn y gogledd, yn enwedig yn y Gymraeg - Vicky Allen oedd yn arfer gwneud hynny*.

*Mae'r swyddogion cefnogi gofalwyr Cyngor Gwynedd yn darparu sesiynau hyfforddiant i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor (myfyrwyr nyrsio) ac mewn ysgolion lleol.*

ch) Faint o swyddi cyfwerth ag amser llawn a oedd ar gael ac a allai gynnal Asesiadau o Anghenion Gofalwyr yn eich awdurdod lleol a/neu yn cael eu hariannu gan eich awdurdod lleol?

*Yn ystod y flwyddyn 2023/24 cyflogwyd 61 gweithiwr cymdeithasol yn cyfateb i 57.03 FTE*

d) Sawl Asesiad o Anghenion Gofalwyr a gynhaliwyd yn ardal eich awdurdod lleol? Diffiniwch gyfanswm yr Asesiadau o Anghenion Gofalwyr, a sawl un oedd yn unigol a sawl un oedd yn rhan o asesiad cyfun o anghenion anabledd

*Blwyddyn ariannol 2023/24*

- *Asesiad ar y cyd: 569*
- *Asesiad Gofalwr: 52*

*** allan o gyfanswm o 3833 achos*

dd) Ar gyfartaledd, pa mor hir oedd Asesiad o Anghenion Gofalwyr yn ei gymryd yn eich awdurdod lleol, o adeg yr atgyfeiriad at yr adeg pan oedd gofalwyr yn cael gwybod am ganlyniad eu hasesiad?

*Mae rhestr aros am asesiad cyffredinol yn bodoli ar WCCIS sy'n nodi fod 220 yn aros ar hyn o bryd. Nid oes un o'r rhain wedi eu nodi i fod yn 'pending carers assessment' – ac nid oes ffordd o wybod pa rai sy'n disgwyl asesiadau ar y cyd.*
*** Dylid nodi bod y data yma'n llwyr ddibynnol ar fewnbynnu a diweddaru rheolaidd gan staff, ac nad yw bob amser yn gywir a chyfredol*
*Nid oes modd mesur pa mor hir mae'n cymryd i ofalwyr gael canlyniad i'w hasesiad chwaith ar hyn o bryd. Felly nid oes modd adrodd ar hwn.*

*Angen hefyd ystyried y pwyntiau canlynol*:

- *mae'n bwysig nodi hyd yr amser i gwblhau asesiad anghenion gofalwyr h.y. mae'n bosib i asesiad fod yn hirach oherwydd ei fod yn drwyadl, gan gymryd amser i ystyried y canlyniadau gorau*
- *nid yw cwblhau asesiad yn gyflym yn golygu'n well bob tro, ac o bosib gallai arwain at fod yn fwy arwynebol*
- *nid yw pob gofalydd sydd yn derbyn asesiad yn cael ei gyfeirio'n uniongyrchol fel gofalydd. Yn aml cant eu hadnabod wrth i'r sawl sy'n derbyn y gofal gael asesiad.*

e) O fewn cyllidebau perthnasol 2023-24, faint o Asesiadau o Anghenion Gofalwyr oedd modd, mewn egwyddor, eu cyflwyno ymhob blwyddyn galendr yn ardal eich awdurdod lleol? (Rydym yn deall mai amcangyfrif yw hyn o bosibl)

*Teimlir bod y cwestiwn hwn bron yn amhosibl i'w ateb, ac nid ydym yn deall y meddylfryd tu ôl iddo.*

- *Nid oes gan ein hawdurdod gyllid ar wahân ar gyfer asesiadau anghenion gofalwyr ond maent yn cael eu gweithredu yn ôl gofynion y Ddeddf gan ein gweithwyr cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni weithredu o fewn gyfryngau ariannol ac amser.*
- *Mae'n rhaid nodi nad yw pob gofalydd sy'n wybyddus i ni yn derbyn asesiad o'i anghenion fel gofalydd.*
- *Wrth anelu at nifer (fel mae'r cwestiwn yn awgrymu), mae yno beryg bod ansawdd yn cael ei israddio.*
- *Rhaid nodi hefyd bod y rhan fwyaf o ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd (fel ym mhob un awdurdod) yn ofalwyr cudd, nad ydynt yn wybyddus i ni o gwbl.*

f) Faint o ofalwyr di-dâl oedd yn derbyn pecyn cymorth neu daliadau uniongyrchol? Os oes modd, rhannwch nhw rhwng y rhai lle mae gofalwr wedi cael ei gynnwys fel rhan o becyn cymorth person anabl a rhai lle mae gofalwr yn cael cymorth yn ei rinwedd ei hun

*Pecyn Cymorth neu Daliadau Uniongyrchol – Pecyn ar y Cyd: 484*
*Pecyn Cymorth neu Daliadau Uniongyrchol – Gofalwr: 27*

ff) Beth yw cost pecyn cymorth neu daliad uniongyrchol cyfartalog dros flwyddyn ariannol i ofalwr di-dâl?

*Amcan ar sail y rhifau yn f):*

1. *Pecyn Cymorth neu Daliadau Uniongyrchol – Pecyn ar y Cyd: £17,613*
2. *Pecyn Cymorth neu Daliadau Uniongyrchol – Gofalwr: £16,237*

*Dyna'r data ar sail blwyddyn ariannol 2023/24 sydd wedi ie dynnu allan o system WCCIS y Cyngor. Dylid nodi nad yw hyn yn adlewyrchiad hollol gywir o'r gefnogaeth mae gofalwyr yn ei cael o fewn y Cyngor am sawl rheswm:*

i. *Nid yw'r asesiad ar y cyd / neu ofalwr bob amser yn cael ei gofnodi'n gywir ar y system*
ii. *Nid yw pob esiampl o wasanaeth neu gefnogaeth yn cael ei gofnodi ar y system gan staff bob tro, ac ar sail anecdotaidd gwyddom fod y gefnogaeth yn llawer ehangach*
iii. *Mae nifer o ofalwyr nad ydynt, am ba beth bynnag reswm, yn dewis cael asesiad ar y cyd, neu asesiad gofalwr*
iv. *Mae nifer o ofalwyr yn derbyn cefnogaeth gan ein partneriaid yn y 3ydd sector. Mae Cynnal Gofalwyr yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth lefel isel i ofalwyr sy'n oedolion, tra bod Gweithredu dros Blant yn cynnal asesiadau, cyngor a chefnogaeth i ofalwyr ifanc. Nid yw'r achosion hyn wedi eu nodi ar system WCCIS*

Adran 2: Allwch chi ddweud wrth Gofalwyr Cymru:

a) Pa wasanaethau newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl gafodd eu comisiynu a'u darparu gan yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024?

- *Diweddarwyd ac argraffwyd llyfryn gwybodaeth, Edrych ar ôl rhywun?, ar gyfer gofalwyr di-dâl Gwynedd*
- *Trefnwyd digwyddiad Cysylltu, Cydweithio, Dathlu ddiwedd mis Chwefror yng Nghaernarfon fel digwyddiad i ofalwyr di-dâl*

*Mae'n angen nodi bod Llywodraeth Cymru bellach yn ariannu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a dosbarthu gwasanaethau newydd i ofalwyr di-dâl yn rhanbarthol, yn hytrach na'n lleol.*
*Hefyd angen ystyried y gwasanaethau (gweler isod) sydd yn cael eu darparu'n barod, ac sydd yn werth i ofalwyr di-dâl ac felly angen arnom i barhau eu hariannu.*

b) Pa wasanaethau parhaus ar gyfer gofalwyr di-dâl oedd yn dal i gael eu hariannu a'u darparu gan yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024?

- *Gwasanaethau cefnogol, gan gynnwys cymorth ymarferol, cyngor, gwybodaeth a seibiannau, gan y timau gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant*
- *Gwasanaeth cefnogol i ofalwyr ifanc a ddarparwyd gan Weithredu dros Blant gydag arian craidd gan Adran Plant a Theuluoedd*
- *Gwasanaeth cefnogol i ofalwyr oedolion a ddarparwyd gan Wasanaeth Cynnal Gofalwyr gydag arian craidd gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant*
- *Cronfa Llesiant Gofalwyr Di-dâl, a gweithredwyd gan Gynnal Gofalwyr ac ariannwyd gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant*
- *Swyddog Cefnogi Rhieni Gofalwyr (efo Cynnal Gofalwyr) – arian RIF*
- *Swyddog Cefnogi Gofalwyr Iechyd Meddwl (efo Cynnal Gofalwyr) – arian RIF*
- *Swyddi parhaol Cyngor Gwynedd yn cefnogi gofalwyr dâl oedolion a gofalwyr ifanc, sydd yn gyfwerth â dwy swydd llawn amser*
- *Cyfwerth â swydd llawn amser Cefnogaeth Gofalwyr drwy RIF*
- *Cefnogaeth gan y gwasanaeth Dementia Actif ar gyfer gofalwyr ac unigolion sy'n byw gyda dementia ar hyd a lled y sir*

Rhowch enghreifftiau a sut mae'r rhain wedi cefnogi gofalwyr di-dâl er mwyn i ni allu rhannu arferion da.

***Tîm Oedolion** - un o amcanion o ddigwyddiad yng Nghaernarfon ym mis Chwefror 2024 oedd cael mewnbwn gofalwyr di-dâl yng nghynllun gwaith gofalwyr di-dâl Cyngor Gwynedd; roedd nifer sylweddol o ofalwyr yn mynychu ac yn rhannu eu barn. Bydd eu barn yn arwain ar flaenoriaethau'r gwaith wrth i ni weithredu'r cynllun.*

*Pan ofynnwyd am eu barn ar y cynllun drafft, dyma ardaloedd gwaith a nodwyd fel blaenoriaethau: datblygu cerdyn gofalwyr Gwynedd ac Ynys Môn; codi ymwybyddiaeth staff iechyd a gofal cymdeithasol o gefnogaeth ar gael i ofalwyr di-dâl; sicrhau bod timau lleol a hybiau cymunedol yn gwybod beth sydd ar gael i ofalwyr; gwella gwybodaeth i ofalwyr - gwefan y Cyngor; gwella cysylltiad a dealltwriaeth rhwng partneriaid sydd yn cynnig cefnogaeth; help efo materion ariannol; codi gwybodaeth o ofalwyr ym maes iechyd meddwl; cefnogaeth a gwybodaeth i ofalwyr ifanc.*

*Argraffwyd 1000 copi o <u>Edrych ar ôl rhywun?</u> ym mis Chwefror 2024; pellach mae tua 20 copi dal yn y storfa, sydd yn dangos bod angen ystyried darpariaeth o wybodaeth mewn print yn ogystal ag ar-lein*.

***Tîm Anabledd Dysgu (AD)** - roeddent yn gweithio mewn partneriaeth agos efo Swyddog Cefnogi Rhieni a Gofalwyr Oedolion ag Anabledd Dysgu, Gwasanaeth*

*Cynnal Gofalwyr, i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu diweddaru am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Mae hi'n hefyd yn mynychu Cyfarfod Trawsffurfiad AD bod yr ail fis, ac mae dau riant -gofalwyr yn mynychu hefyd i gyfrannu at gynllunio a datblygu darpariaeth AD yng Ngwynedd.*

*Cafwyd 'blwch mewn gwasanaeth' ei adnabod, sef y rhai nad yw'n cyrraedd cofrestr AD ond sydd yn aros yn fregus ac weithiau yn ynysig wrth adael ysgol. Gallai hyn fod yn amser anodd ac ingol iawn i unigolion a'u rhieni. Wrth weithio'n agos gyda Derwen, Addysg ac asiantaethau partneriaid eraill, gan ddefnyddio'r grant gofalwyr, rydym yn datblygu bellach darpariaeth grŵp sydd ar gael i'r unigolion hyn, yn gweithio'n ataliol a chreadigol i sicrhau nad yw'r bobl ifanc hyn yn methu cael oherwydd blwch mewn gwasanaeth.*

***Gofalwyr ifanc** - y Swyddog Gofalwyr Ifanc wedi bod o gwmpas ysgolion Gwynedd gydag amcan o gyflwyno gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth plant ac athrawon dros y sir. Roedd wedi cyrraedd 2,500 o ddisgyblion yn 2023-24, ac mae'r gwaith yn parhau. Cynhaliwyd sesiynau ychwanegol mewn rhai ysgolion, sesiynau a oedd yn rhoi pwyslais ar lesiant disgyblion, ac i drafod yn fwy eang y pwysigrwydd o dderbyn cefnogaeth pam maent yn ofalwyr ifanc. Mae'r sesiynau wedi cynyddu'n sylweddol y nifer o gyfeiriadau i Weithredu dros Blant (sydd yn gyfrifol am brosiect Gofalwyr Ifanc Gwynedd).*

***Cronfa Llesiant Gofalwyr Di-dâl (gweithredwyd gan Wasanaeth Cynnal Gofalwyr)***

*Darparwyd 220 o grantiau yn ystod 2023 i unigolion, ond hefyd ar gyfer gweithgareddau grwpiau (17).*

*Roeddent yn gynnwys y categorïau dilynol: therapi cyflenwol; costau byw; cwnsela; cymorth tâl carafán gofalwyr; diwrnod allan/atyniad twristiaeth; datblygu addysgol; garddio; arall; brêc dros nos; gofal personol/llesiant; llesiant corfforol; gwasanaethau seibiannau; datblygu sgiliau, technoleg; trafnidiaeth/costau teithio.*

*Fel categori unigol, mai datblygu sgiliau oedd yr un i dderbyn y nifer uchaf o grantiau. Er bod y meysydd seibiannau yn fwy amlwg wedi cael eu cynnwys, roeddent yn derbyn llawer llai na hanner y nifer o grantiau, gan ddangos y pwysigrwydd o feddwl tu allan i'r bocs wrth ystyried pa fath o gefnogaeth sydd angen i ofalwyr di-dâl.*

*DS Dylid nodi effaith bosib o'r cynllun Amser yn ystod 2023-24 o safbwynt gofyn ar y gronfa – darparwyd 136 grant Amser i ofalwyr yng Ngwynedd yn ystod y cyfnod hwn, yn werth £34,301.00.*

Adran 3:

Ar hyn o bryd mae bwlch yn bodoli rhwng dyheadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ynghylch gofalwyr di-dâl yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth, a'r realiti o ran i ba raddau y mae gofalwyr yn derbyn hyn. Rydym yn

deall bod nifer o resymau dros hyn. Yn eich barn chi, sut byddai modd cau'r bwlch ac yn fwy penodol, beth fyddai'n helpu eich awdurdod lleol i wneud hyn?

*Wrth ystyried bod cefnogi gofalwyr di-dâl yn gyfrifoldeb Iechyd yn ogystal ag Awdurdodau Lleol, byddai'n braf pe bai Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn ac yn rhoi pwysau ar Iechyd i weithredu mewn ffyrdd ymarferol i gefnogi gofalwyr di-dâl. Nid yw pob gofalwr di-dâl yn dod i sylw gwasanaethau cymdeithasol ayb, ac ond efallai eu bod yn dod i sylw gwasanaethau iechyd. Mae'n debyg mai prif gyswllt (neu unig gyswllt) sydd gan rai gofalwyr gyda sector statudol yw meddygfeydd meddygon teulu.*

*Wrth geisio darparu gwasanaethau seibiannau i ofalwyr, mae dryswch ynglŷn â phwy sydd yn derbyn/ talu am y gwasanaeth h.y. a yw'r gwasanaeth i'r un sydd yn derbyn y gofal, ac felly gyda thâl, neu ar gyfer y gofalwr, ac felly, o bosib, heb dâl? Rydym wedi gofyn sawl gwaith i Lywodraeth Cymru am benderfyniad ar y mater, ond wedi methu cael ateb clir.*

*Byddai'n dda cael canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd eraill hefyd e.e. y rhieni ofalwyr nad ydynt yn derbyn cefnogaeth oherwydd nad yw eu plant yn cyrraedd criteria neu oherwydd bod gwasanaethau oedolion a phlant yn methu cytuno pwy sydd yn gyfrifol am wneud yr asesiadau anghenion gofalwyr, sydd yn golygu bod y gofalwyr hyn yn disgyn drwy'r rhwyd.*

***Pwynt olaf:*** *Nid yw'r cwestiynau'n ddigon clir. Byddai'n braf pe bai Gofalwyr Cymru yn cydweithio gyda'r awdurdodau lleol yn y dyfodol dros holiaduron pellach. Wedyn byddai modd iddyn nhw gael ymatebion gwell oherwydd byddai modd i'r awdurdodau lleol gynnig data ystyrlon. Mae cwestiynau gwell yn golygu ymatebion gwell!*